Corfforol

## Gweithgaredd 5: Dangosyddion cam-drin / niwed / esgeulustod

# Categori Cam-Drin: Cam-Drin Corfforol

Bwrw, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, gorddefnydd o ataliaeth, neu gosbau amhriodol.

### DANGOSYDDION

#### Corfforol

- anaf nad yw'n cyd-fynd â'i esboniad
- anaf heb ei drin yn iawn
- cytiau, olion crafu, rhwygo, chwipio
- clwyfau trywanu
- cleisiau neu groen wedi'i afliwio
- sigo
- olion brathu
- marciau pinsio a blaen bysedd
- olion llosgi a sgaldio, gan gynnwys llosgiadau rhwbio
- unrhyw achos o dorri asgwrn heb esboniad boddhaol o'r ddamwain
- llosgiadau carped
- anafiadau ataliaeth
- gormod o bresgripsiynau amlroddadwy; tan/gorddefnydd o feddyginiaeth.

#### Emosiynol

- ffwndrus
- ofnus
- hunan-barch isel
- paranoia neu fraw anesboniadwy.

#### Ymddygiad

- olion tynnu gwallt
- colli pwysau neu ddiffyg archwaeth sylweddol
- insomnia
- gwingo neu gilio oddi wrth bob cyswllt corfforol
- gorgysglyd
- esboniadau amrywiol neu anghyson o anaf gan ofalwr
- rheoli trwy atal, rhwystrau corfforol neu rym
- gwlychu'r gwely
- patrwm cwsg aflonydd
- gofyn i eraill beidio â'i frifo.

#### Cymdeithasol

- anafiadau cudd neu heb eu cydnabod (e.e. cuddio dan ddillad)
- esboniadau annhebygol neu amrywiol gan ofalwr am anafiadau'r unigolyn
- ymddygiad annodweddiadol neu'n mynd i'w gragen ei hun
- y plentyn yn ymddwyn yn greulon tuag at blant mwy bregus, anifeiliaid neu wrth chwarae
- ofnus yng nghwmni unigolyn neu mewn lle penodol
- rhedeg i ffwrdd neu ddim eisiau mynd adref.

### LLE ALLAI HYN DDIGWYDD?

- cartref yr unigolyn dan sylw
- cartref gofal preswyl
- cartref nyrsio
- ysbyty
- ysgol / coleg
- gofal dydd
- meithrinfa
- gwarchodwyr plant
- llety gwarchod
- cartref perthynas
- lle cyhoeddus.

### PWY ALL FOD YN GYFRIFOL NEU'N ACHOSI HYN?

- gofalwr cartref
- gofalwr preswyl
- perthynas / rhiant / plentyn / gŵr neu wraig / gofalwr arall
- gweithiwr cymorth
- gweithiwr proffesiynol
- ffrind i'r teulu / cymydog
- dieithryn.